Cenn@d

HYDREF 30 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 192

# Cyflwyno medalau Gee yn ne Cymru



Emyr Williams, Angela Skym ac Aled Davies



Côr Seingar yn Llanddarog

Yn ddiweddar, cyflwynwyd dwy fedal Gee i ddwy athrawes gwaith plant a fu'n gwasanaethu'n ffyddlon am gyfnod maith yn eu hysgolion Sul lleol.

Nos Sul, 29 Medi, cyflwynwyd medal i Angela Skym o Gapel Newydd Llanddarog. Treuliodd Angela dros 60 mlynedd fel athrawes blant weithgar yn y capel, gan baratoi cenedlaethau o blant ar gyfer gwasanaethau, gwyliau a nosweithiau cwis. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Côr Seingar, fel rhan o gyngerdd blynyddol yr ysgol Sul. Cyflwynwyd y fedal gan Aled Davies ar ran y teulu Gee. Diolch i Emyr Williams am ei drefniadau gofalus ac am lywyddu'r noson yn ei ffordd unigryw ei hun.

Yna, pnawn Sul, 20 Hydref, cyflwynwyd medal i Enid Jones o gapel Pencae, ger Llanarth. Dafydd Iwan oedd wedi derbyn y gwahoddiad i bregethu yn y cyrddau diolchgarwch blynyddol, ac fel rhan o'r oedfa cafwyd cyfle i ddiolch i Enid am ei gwasanaeth ffyddlon i waith yr ysgol Sul yn y fro. Treuliodd hithau bron i hanner can mlynedd yn dysgu yn yr ysgol Sul ac yn paratoi cenedlaethau o blant ar gyfer cymryd rhan mewn gwasanaethau. Trefnodd hefyd iddynt ennill Cwpan Denman, sef cystadleuaeth gwaith plant Undeb yr Annibynwyr. Cafwyd cyflwyniad a gair o werthfawrogiad gan Catrin Bellamy, sy'n un o'r tîm o athrawon sy'n gofalu am waith yr ysgol Sul. Cyflwynwyd y fedal gan Aled Davies ar ran y Cyngor Ysgolion Sul, a chafwyd gair hyfryd o ddiolch gan Enid. Braf oedd gweld cynifer o blant yr ysgol Sul yn bresennol, yn ogystal â nifer o gyn-ddisgyblion.



Dafydd Iwan, Catrin Bellamy, Enid Jones ac Aled Davies



Plant a chyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul yn Pencae

## Cytûn yn galw arweinwyr eglwysi Cymru ynghyd

Ddydd Iau a dydd Gwener, 17–18 Hydref, daeth dros 25 o arweinwyr yr enwadau yng Nghymru ynghyd yng Ngholeg Trefeca i encil a chyfle i drafod a chynllunio ar gyfer cydweithio posib. Bu'n gyfnod o rannu a gwrando, gyda'r Parch Ruth Gee o'r Eglwys Fethodistaidd yn ein hannog i adeiladu ar ein cyfeillgarwch, a'r Archesgob Rowan Williams yn arwain sesiwn ar undod drwy'r Ysbryd Glân. Bu'n gyfle hefyd i ddod i adnabod a chlywed gan Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn, y Dr Cynan Llwyd. Cafwyd amser adeiladol, a gobeithir y bydd hyn yn arwain at fwy o gydweithio rhwng yr enwadau a'r eglwysi yng Nghymru.



Awelon o Galfaria Fryn: cyflwyniad i emynau Diwygiad 1904/05
Tudalen 3

Cenhadu yn Japan
Tudalen 5

Dioddefaint y Palestiniaid
Tudalen 8

# Golud – adnoddau ar gael i rai sy'n byw gyda dementia, yn gleifion a gofalwyr

Bydd llawer o ddarllenwyr *Cenn@d* yn gyfarwydd iawn â chynllun Golud – cynllun tair blynedd wedi ei noddi gan CWM (Council for World Mission) i godi ymwybyddiaeth am ddementia o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Prif amcan y cynllun oedd cefnogi ffydd y rhai sy'n byw gyda dementia, naill ai'n gleifion neu'n ofalwyr.

Erbyn hyn mae'r tair blynedd wedi dod i ben a llawer wedi ei gyflawni o fewn y cyfnod. Hoffai Cydlynwyr Golud gymryd y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi mewn unrhyw ffordd: yn helpu i drefnu sesiynau Ffrindiau Dementia, yn dosbarthu adnoddau, ac yn rhannu hanesion personol sydd wedi cyfoethogi ein dealltwriaeth o'r cyflwr a'r sialensau sy'n gysylltiedig ag ef. O'r adborth rydym wedi ei dderbyn, gwelwn fod yr hyn rydym wedi'i gynnig i'r eglwysi wedi bod o gymorth ac anogaeth.

Dros y tair blynedd rydym wedi cynnal sesiynau Ffrindiau Dementia ym mhob henaduriaeth ac wedi bod mewn cyswllt â phob gweinidog a gweithiwr. Mae pob henaduriaeth wedi derbyn copïau o'r *Canllaw i Eglwysi ac Arweinwyr Eglwysig*. Trwy'r canllaw rydym wedi darparu llawer o wybodaeth am ddementia a sut medrwn geisio gweinidogaethu i'n haelodau sy'n byw gyda dementia gyda sensitifrwydd a gwell dealltwriaeth.

Er bod y cynllun dan nawdd CWM wedi gorffen, nid yw ein baich dros y rhai sy'n byw gyda dementia wedi dod i ben. Bydd yr adnoddau'n dal ar gael gan Eirian Roberts, Trefnydd Gwaith y Chwiorydd, a bydd Carys Davies a Sarah Morris yn dal ar gael i gynorthwyo eglwysi sy'n dymuno gwybod mwy am ddementia neu am ystyried sut i ymateb mewn ffyrdd ymarferol i anghenion y rhai sy'n byw gyda dementia yn y gynulleidfa neu'r gymuned.



Cadeirydd pwyllgor cefnogi Cynllun Golud, Dilys Hughes gyda Sarah Morris, Carys Davies a Samantha Hodgins, gweithwyr y cynllun.

Dyma'r adnoddau sydd ar gael:

*Canllaw i Eglwysi ac Arweinwyr Eglwysig*: Llyfr yn cynnwys gwybodaeth am ddementia, syniadau sut y gall eglwysi gynorthwyo, sut i gyfathrebu'n briodol, sut i gefnogi gofalwyr, a rhestr o asiantaethau dementia-gefnogol yng Nghymru.


*Gweddïau Gwerthfawr*: Llyfryn dwyieithog sy'n cynnwys ffotograffau hyfryd o lefydd yng Nghymru gyda phenillion o emynau ac adnodau i sbarduno sgwrs a chân.

*Trysorau'r Ysgol Sul*: casgliad o emynau a darlleniadau Beiblaidd ar gryno-ddisg i brocio'r cof ac ennyn addoliad.

*Chwe cham allweddol tuag at Eglwys Dementia-gyfeillgar*: cyfieithiad o lyfr Louise Morse, *Pilgrims' Friend Society*, sy'n cynnwys egwyddorion i gynyddu hyder eglwysi wrth iddynt geisio cwrdd ag anghenion ymarferol ac ysbrydol pobl â dementia.

Trwy'r cwbl, y nod oedd cefnogi ffydd y rhai sy'n byw gyda dementia oherwydd yr argyhoeddiad bod pob Cristion, beth bynnag eu hamgylchiadau, yn rhan werthfawr o gorff Crist ac yn haeddu gofal addas a chariad ymarferol.

*Sarah Morris*
*Cydlynydd De Cymru*









# Awelon o Galfaria Fryn: cyflwyniad i emynau Diwygiad 1904/05

**Mewn cyfarfod yng nghapel Blaenannerch, Ceredigion, bnawn Sul, 29 Medi, i nodi union 120 mlynedd er dechrau'r cynnwrf ysbrydol a ddaeth yn Ddiwygiad 1904/05 yn y man, fe gafwyd cyflwyniad gan Dr Rhidian Griffiths i'r emynau a ddaeth i boblogrwydd yn ystod y diwygiad ac a ganwyd yn ystod yr oedfa eleni. Diolchwn i Rhidian am gael cynnwys ei sylwadau ar yr emynau yma.**




**'Dewch, hen ac ieuanc, dewch' (*Caneuon Ffydd*, 179)**
Un o emynwyr diwygiad y ddeunawfed ganrif oedd Morgan Rhys, athro uchel ei barch yn ysgolion cylchynol Griffith Jones. Er mai yng Nghil-y-cwm y cafodd ei eni, cysylltir ef yn arbennig â Llanfynydd yn sir Gaerfyrddin, lle bu'n byw yn ei flynyddoedd olaf. Cyhoeddodd gasgliad o emynau dan y teitl Beiblaidd-farddonol, *Golwg o Ben Nebo*, lle cynhwyswyd y penillion hyn yn rhan o emyn o ddeg pennill. Bu llawer o ganu ar y geiriau hyn yn Niwygiad 1904/05, oherwydd eu hapêl at yr hen a'r ieuanc a'r 'hen wrthgilwyr trist', a bu llawer o ddyfynnu ar y llinell, 'mae drws trugaredd heb ei gau'. Mae'r dôn 'Rhosymedre', o waith yr offeiriad J. D. Edwards, wedi cadw ei phoblogrwydd ar hyd y blynyddoedd er pan gyhoeddwyd hi gyntaf yn 1838.

**'O tyred i'n hiacháu'**
**(*Caneuon Ffydd*, 591)**
Emyn cymharol newydd oedd hwn pan dorrodd Diwygiad 1904 ar Gymru. Cafodd ei lunio gan Elfed i'w gynnwys yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol* yn 1895, ac ymddangosodd yno dan y pennawd 'Gweddi am sancteiddiad'. Cafodd Elfed ei hunan ei gyffwrdd gan symudiadau ysbrydol 1904, ac mae'r geiriau hyn yn adlewyrchu'r awydd dwfn am brofi dawn a nerth yr Ysbryd yn y galon a fu'n rhan amlwg o gyffroadau'r cyfnod hwnnw. O gyfrol David Jenkins, *Gemau Mawl*, y daw'r dôn 'Capel Tygwydd', sy'n dwyn enw pentref heb fod ymhell o Flaenannerch. Er mai un o Drecastell, sir Frycheiniog, oedd David Jenkins, fe dreuliodd gyfran helaeth o'i oes yn Aberystwyth, lle bu'n ddarlithydd ac yn Athro mewn cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol.

**'Mi glywaf dyner lais'**
**(*Caneuon Ffydd*, 483)**
Trwy gyfrwng ymgyrchoedd diwygiadol yr Americanwyr Ira Sankey a Dwight Moody yn yr 1870au y daeth yr emyn 'I hear thy welcome voice' i Brydain. Cafodd Ieuan Gwyllt ganiatâd Sankey i gyfieithu rhai o emynau'r ymgyrchoedd i'r Gymraeg, a'u cyhoeddi yn y casgliad *Swn y Juwbili*. Daeth nifer ohonyn nhw'n boblogaidd, ond yr un sydd wedi para yn ei fri yw 'Mi glywaf dyner lais' a genir o hyd gan gynulleidfaoedd a chorau meibion fel ei gilydd. Canwyd llawer arno yn Niwygiad 1904 a daeth y gytgan 'Arglwydd, dyma fi' yn fynegiant o brofiad llawer o ddychweledigion y Diwygiad hwnnw – 'canna f'enaid yn y gwaed / a gaed ar Galfarî'. Mor gyfarwydd yw'r emyn i ni heddiw fel y mae'n hawdd anghofio dwyster ac angerdd y weddi honno.



**'Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf'**
**(*Caneuon Ffydd*, 494)**
Diwygiad 1762 a ddaeth â Williams Pantycelyn i fri fel emynydd, er iddo gyhoeddi emynau cyn hynny. Yn 1762 y cyhoeddodd gasgliad dan y teitl trawiadol *Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr*. Y flwyddyn ganlynol ymddangosodd rhan gyntaf ei gasgliad *Ffarwel Weledig, groesaw anweledig bethau*, ac mae'r ddau gasgliad yma'n cynnwys rhai o'i emynau enwocaf a mwyaf grymus. Yn *Ffarwel Weledig* yr ymddangosodd 'Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf', a ddaeth yn un o glasuron emynyddiaeth Gymraeg. Dyfynnwyd llawer ar y trydydd pennill, 'Gwaed dy groes sy'n codi i fyny / 'r eiddil yn goncwerwr mawr', a daeth y geiriau 'Gad im deimlo / awel o Galfaria fryn' yn un o gytganau mawr Diwygiad 1904 wrth i bobl deimlo mai awelon Calfaria oedd yn cyffwrdd â nhw. Mae tôn William Owen, Prysgol, 'Bryn Calfaria' yn dôn ddiwygiadol ei natur sy'n perthyn i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn mynegi naws y canu diwygiadol Cymreig, gyda'i rhannu rhwng y lleisiau a'i hailadrodd. Bu llawer o ganu arni yn 1904.

**'Dyma gariad fel y moroedd'**
**(*Caneuon Ffydd*, 205)**
Mewn atodiad i gasgliad o emynau Pantycelyn a gyhoeddodd yn 1847 y cynhwysodd William Rees, 'Gwilym Hiraethog', yr emyn grymus hwn sydd wedi ennill ei blwy fel un o emynau mawr ein cenedl. Gyda'i sôn am 'gyfiawnder pur a heddwch / yn cusanu euog fyd' mae'n adleisio adnod yn Salm 85: 'Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.' Cafodd ei ganu gydag angerdd yn Niwygiad 1904, a hynny'n aml ar yr hen dôn Gymreig 'Cwynfan Prydain' neu ar dôn T. J. Williams, 'Ebeneser' (sef 'Tôn y Botel'). Daeth cyfieithiad Saesneg y Prifathro William Edwards, 'Here is love, vast as the ocean', yn boblogaidd yn ystod y Diwygiad hefyd. Fe gysylltir hwnnw yn aml â thôn yr Americanwr Robert Lowry, 'Jesus only' ('Dim ond Iesu'), a'r dôn honno a genir gennym heddiw ar eiriau Hiraethog, 'Dyma gariad fel y moroedd'.

# Hoff emynau Dewi yng Nghymanfa Soar, Nercwys

Fe fydd cyfle i sawl pregethwr ddewis ei hoff emynau o Sul i Sul. A daeth y cyfle hwnnw i Dewi Hughes, Coed-talon, nos Sul, 29 Medi, wrth i gymanfa ardal Bro Garmon ymweld â Chapel Soar, Nercwys. Aeth nifer y capeli o bob enwad yn y cylch yn llai, ond mae'r gymanfa hon ar y cyd yn dal i dynnu'r ffyddloniaid at ei gilydd i ganu mawl.

Cafodd Dewi ei godi'n flaenor 62 mlynedd yn ôl yng nghapel Seion, Coed-talon, ac mae wedi gwasanaethu fel blaenor yn nghapel Soar, Nercwys, ers diwedd y ganrif ddiwethaf. Bu'n arweinydd hefyd ar Gôr Meibion Cymau hyd yn ddiweddar.

Daeth cynulleidfa dda o dros 40 at ei gilydd i ganu hoff emynau cynulleidfaol Dewi, oedd yn cynnwys 'Sicrwydd bendigaid' ac 'O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu' gan Nantlais ar y dôn 'Converse'.

Diolchodd Dewi am y fraint o gael arwain cymanfa o blith ei hoff emynau ac am nerth ac iechyd i allu gwneud hynny. Ann Edwards oedd wrth yr organ a Marion Simkin a gymerodd at y rhannau arweiniol, gyda Gwenfron Chmielewski yn llywyddu a bugail yr eglwys yn cloi'r cyfarfod mewn gweddi.

Cafwyd casgliad yn ystod y cyfarfod tuag at Gymdeithas Alzheimer a derbyniwyd



y swm o £150. Diolchwyd i Dewi ac i bawb am eu trefniadau ac am noson o fawl ardderchog gan Dafydd Roberts, Treuddyn.

*HP-D*

# Dim amser

'Does gen i ddim amser' – dyma eiriau a glywn yn aml. Dywedir bod llai a llai o deuluoedd ag amser i eistedd a bwyta fel teulu. Does dim amser i wrando ar ein gilydd fel o'r blaen, meddai eraill. Does dim amser i helpu'r gwan. Dim amser i addoli a gweddïo. Gwelwn ein capeli a'n heglwysi'n cau am nad oes amser i gofio Creawdwr a Gwaredwr am un awr mewn wythnos. Gwelwn ein cymunedau'n dadfeilio a'r ymwybyddiaeth o berthyn yn peidio. Mae pobl fel petaent mor brysur yn byw fel nad oes ganddynt amser i ystyried pwrpas na chyfeiriad eu bywyd.

**Egwyl**

Gwyddai'r Arglwydd Iesu Grist am yr angen i gael toriad ac egwyl o brysurdeb ei waith. Wrth ddarllen hanes ei fywyd yn y Beibl gwelwn fod ganddo amser i fwyta gyda'i deulu a'i ffrindiau, yn ogystal ag amser i helpu pobl wan ac anghenus. Yn sicr roedd ganddo amser i weddïo ac addoli'n gyson o ddydd i ddydd.

Mae'r Beibl yn ein hannog o hyd i wneud amser i gofio, i ystyried ac i orffwyso. Yn Salm 46 cawn y gorchymyn i 'stopio' er mwyn cael golwg iawn ar bethau, golwg iawn ar Dduw, arnom ni'n hunain a'r byd. Wrth stopio a myfyrio ac ystyried, daw balans i'n bywydau. Gallwn gael golwg onest arnom ein hunain, gweld ein gwendidau a'n cryfderau. Mae myfyrio gyda Beibl agored yn rhoi cyfle i ni weld ac adnabod Duw. Mae'n rhoi cyfle hefyd i ni weld ei ewyllys ar ein cyfer ni ac eraill. O wneud hyn gwelwn y gwirionedd y daeth y Salmydd i'w ddeall, 'Mae Duw yn ein cadw ni'n saff ac yn rhoi nerth i ni. Mae o bob amser yna i'n helpu pan mae trafferthion. Felly fydd gynnon ni ddim ofn hyd yn oed petai'r ddaear yn ysgwyd, a'r mynyddoedd yn syrthio i ganol y môr gyda'i donnau gwyllt yn troelli ac yn ewynnu.'

Gwyliwn rhag bod yn rhy brysur i ystyried y pethau pwysicaf sy'n perthyn i'n bywyd.

*Robert O. Roberts* (o 'Llais Bro Aled')

# Dathlu 250 mlynedd yng Nghapel Bwlch-gwynt, Tregaron

Brynhawn Sul, 6 Hydref, dathlwyd dau can mlynedd a hanner sefydlu'r achos ym Mwlch-gwynt, Tregaron. Roedd y garreg filltir nodedig hon yn hanes yr eglwys yn gyfle arbennig i gydnabod llaw gynhaliol Duw yng nghychwyniad a pharhad yr achos. Diolchir i bawb a fu ynghlwm â'r trefniadau ar gyfer y gwasanaeth dathlu, y te a'r arddangosfa.



Y plant yn canu penillion a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur





Glyn Lewis, un o flaenoriaid y capel, yn torri cacen y dathlu gyda'r gweinidog, y Parch Carwyn Arthur



Y te a'r arddangosfa a gafwyd yn y festri

# Cenhadu yn Japan




Helô, bawb! Tomos ydw i. Dwi'n dod o Lanuwchllyn, ger y Bala. Dwi'n 21 oed a newydd raddio o Brifysgol Durham ar ôl astudio Diwinyddiaeth a Chrefydd.

Ym mis Ionawr byddaf yn mynd i wasanaethu'r eglwys yn Japan am flwyddyn! Penderfynais ar hap ddechrau dysgu Japaneeg yn ystod y cyfnod clo, ac wedi hynny dechreuais ymddiddori yn niwylliant Japan, yn enwedig eu cysyniadau ysbrydol. Defnyddiodd Duw hyn wrth i mi gael y cyfle i arwain gwaith 'estyn allan' Cristnogol i fyfyrwyr Japaneaidd yn ystod fy amser yn y brifysgol. Bryd hynny, fe ddaeth bendithion a heriau siarad am ffydd gyda myfyrwyr o ddiwylliant hollol wahanol i'r amlwg. Tyfodd fy nghalon dros fyfyrwyr Japaneaidd a theimlwn wrth fy modd o gael y cyfle i rannu'r Efengyl a thrafod pethau ysbrydol a beth fyddai dilyn Iesu yn ei olygu iddyn nhw.

Un diwrnod, tra oeddwn yn cael swper gyda chwpl Cristnogol o Japan oedd wedi symud i Durham, mi anfonodd Mam gyfle ataf yr oedd hi wedi'i ddarganfod i wasanaethu yn Japan o dan y sefydliad cenhadol Overseas Missionary Fellowship (OMF). Rhannais hyn gyda'r cwpl, a wnaeth fy annog i wneud cais, gan eu bod yn cadarnhau bod y sefydliad yn gwneud gwaith da yn Japan ac yn gwasanaethu Duw a'i eglwysi yn dda yno. Gyda'r anogaeth hon, gwnes gais, a byddaf nawr yn mynd i weithio gyda 'Returnees to Tokyo' am flwyddyn!

Mae gweithio gyda rhai sy'n dychwelyd adref yn golygu cyfarfod â Japaneaid, yn enwedig myfyrwyr, sydd wedi bod dramor ac wedi cael rhywfaint o brofiad o ffydd, rhai sydd â dim ond diddordeb, neu efallai ag ymrwymiad llawn i Grist. Mae'n anodd i'r rhai sy'n dychwelyd berthnasu'r profiadau hyn i'w bywyd yn Japan, gan mai Japan sydd â'r 15fed ganran isaf o Gristnogion ymhlith holl wledydd y byd. Mae eglwysi a Christnogion Japan hefyd yn debygol o addoli, astudio a byw yn wahanol i eglwysi'r Gorllewin a'r Cristnogion y bydd y bobl hyn wedi cwrdd â nhw dramor.

Er bod gwahanol fynegiadau o ffydd ac amrywiaeth yn yr eglwys yn rhywbeth i'w ddathlu, gall fod yn bryder i'r rhai sy'n dychwelyd orfod addasu i leoliad Cristnogol newydd pan fyddant mor newydd i ffydd. Gellir cymharu ffydd â thân glo yn llosgi; os byddwch chi'n tynnu un darn o lo allan, bydd yn diffodd yn gyflym.

Yn Japan byddaf yn gweithio ochr yn ochr â chenhadon Cristnogol eraill wrth i ni wasanaethu i gysylltu'r bobl hyn ag eglwysi yn Japan, gan eu helpu i addasu a chysylltu eu profiadau â'u bywyd parhaol yn Japan. Yn ymarferol, byddaf yn helpu gyda digwyddiadau 'estyn allan' mawr i'r rhai sy'n dychwelyd, ond hefyd yn cyfarfod ar sail un-i-un â nhw ac yn cynnal astudiaethau Beiblaidd os byddant yn dymuno hynny.

Mae'r rhain i gyd yn gyfleoedd i helpu'r rhai sy'n dychwelyd adref i beidio â cholli nac anghofio'r hyn a brofwyd ganddynt dramor. Byddaf hefyd yn helpu i'w cysylltu ag eglwysi yn agos i'w cartrefi ac yn mynychu'r eglwysi hynny gyda nhw os ydyn nhw eisiau cael wyneb cyfarwydd gyda nhw. Nid yw'r gwaith hwn gydag OMF er mwyn cyflawni cenhadaeth yn unig, ond hefyd i gefnogi a gwasanaethu'r eglwysi yn Japan sydd eisoes yn gweithio i Grist. A dyfynnu Mathew 9:37: 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin'. Mae hyn yn arbennig o wir yn Japan, felly hoffwn fynd yno i wasanaethu!

Mae llawer o heriau y bydd yn rhaid i mi eu hwynebu, a bydd yn dipyn o newid symud o ogledd Cymru wledig i Tokyo! Er fy mod wedi bod yn dysgu'r iaith ers amser maith, mae dysgu Japaneeg hefyd yn bendant yn dal yn her! Rwyf hefyd yn ffodus o fod yn gwneud y 'flwyddyn gap' yng Ngholeg y Bala ar hyn o bryd, yn arwain llawer o glybiau plant ac ieuenctid. Ond yr her gyda hyn yw fy mod yn ei ffeindio'n anodd dod o hyd i'r amser i lenwi'r holl waith papur angenrheidiol yn ogystal â threulio amser gyda Duw ac yn ei Air! Mae'r cyfle yma hefyd yn un gwirfoddol, felly mae angen i mi godi £12,500 i allu byw a gwasanaethu am y flwyddyn! Mae codi'r arian hefyd yn her, ond mae Duw yn ffyddlon a hyderaf y bydd yn darparu.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich gweddïau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn fawr, yn enwedig ar gyfer yr heriau a grybwyllwyd uchod. Rwyf mor ymwybodol na chyflawnir dim byd o werth parhaol heb weddi, felly byddai eich partneriaeth mewn gweddi yn cael ei gwerthfawrogi gymaint. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi pe baech yn ystyried partneru â mi yn ariannol yn y gwaith hwn. Rwyf wedi derbyn rhai cyfraniadau hael yn barod, ond rwy'n dal gryn bellter i ffwrdd o godi'r swm sydd ei angen.

Gallwch gysylltu â mi drwy e-bostio tomosstabal@gmail.com, neu roi'n ddigidol ar fy nhudalen www.stewardship.org.uk/partners/tomos. Yno, rydych yn gallu clicio ar 'give', yna 'give as guest' i roi arian gyda (neu heb) GiftAid. Os hoffech chi gefnogi fy nghenhadaeth drwy weddi barhaus, anfonwch e-bost ataf gyda'ch enw a'ch rhif ffôn fel y gallaf eich ychwanegu at grŵp gweddi WhatsApp lle byddaf yn anfon diweddariadau wythnosol a cheisiadau gweddi. Byddwn hefyd yn fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau drwy e-bost neu drefnu galwad i rannu mwy o wybodaeth gyda chi.

*Tomos Edwards*

## Calendr Plygeiniau

Ers tair blynedd bellach mae gwefan y Plygain (www.plygain.org) wedi bod yn cyhoeddi rhestr (a map) o wasanaethau plygain ar hyd a lled y wlad – ac ambell un y tu hwnt.

Mae casglu'r holl wybodaeth ynghyd yn dasg go fawr, yn enwedig gan fod yr wybodaeth yn ein cyrraedd bob yn dipyn, am gyfnod o tua dau fis – rhai mor hwyr â dechrau mis Ionawr!

Byddai'n braf iawn medru cyhoeddi rhestr mor gyflawn â phosib erbyn **tua chanol mis Tachwedd**. (Bydd y blygain gyntaf yn digwydd ar 1 Rhagfyr!)


Tybed a gawn ni apelio eleni ar bawb i yrru eu manylion i ni mewn da bryd? Y cyfeiriad ydi: plygain@gmail.com, a'r cyfan sydd ei angen ydi dyddiad, lleoliad (gan gynnwys enw'r capel neu'r eglwys) a'r amser.

Diolch yn fawr am bob cydweithrediad.

**Arfon Gwilym**
**Ceris Gruffudd**

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 8 'Boas yn byw i'w enw' (Ruth 4:1–8)

Y tro diwethaf fe welsom y garwriaeth rhwng Ruth a Boas yn datblygu wrth iddi gytuno â chyngor a chynllun Naomi. Roedd hyn yn golygu bod Ruth yn mynd heibio'r 'llawr dyrnu' ac yn gwylio o bell, hyd nes bod y gweithwyr wedi bwyta ac yfed a syrthio i gysgu. Yn eu plith yr oedd Boas, oedd yn cysgu'n sownd ar ôl mwynhau ei swper. Daeth Ruth ato, gan ddilyn cyfarwyddiadau Naomi, a gorwedd wrth ei draed.

Roedd Ruth bellach yn credu Naomi mai Boas oedd yr un y byddai Duw yn ei ddefnyddio i achub eu sefyllfa. Yn Boas mae'n gweld yr un sy'n cynrychioli Duw yn eu bywydau. Boas ydy'r 'perthynas sy'n achub', y 'ga-al' y daethom i'w adnabod y tro diwethaf, yr un sy'n alluog i achub ei deulu. Fel yn Lefiticus 25:25, 'Os ydy un o'ch pobl chi yn mynd mor dlawd nes bod rhaid iddo werthu peth o'i dir, mae gan ei berthynas agosaf hawl i ddod a phrynu'r tir yn ôl' (Beibl.net).

Boas ydy'r un a fedr wneud hyn i Ruth a Naomi, y dyn y mae ei enw'n golygu bod yn gryf, yn gefnog ac yn onest. Ond roedd Boas wedi egluro i Ruth: 'Y mae'n hollol wir fy mod yn berthynas agos, ond y mae un arall sy'n nes na mi ... Ond os nad yw'n barod i wneud hynny, yna fe wnaf fi.' (3:12–13)

Ar ddechrau pennod 4, felly, tydy Boas ddim yn gwastraffu amser o gwbl. Mae'n mynd at Borth y Ddinas ac yn eistedd i lawr, a phwy sy'n dod heibio ond perthynas agosaf Elimelech, tad yng nghyfraith Ruth. Mae Boas yn ei alw wrth ei enw ac yn ei gymell i eistedd gydag ef. Y cam nesaf ydy fod Boas yn dewis deg o arweinwyr y dref ac yn gorchymyn iddynt eistedd gyda'r ddau. Mae hyn yn adlewyrchu safle Boas yn y gymuned – ei bod mor rhwydd iddo alw am y 'gwrandawiad' hwn. Mae Boas yn atgoffa'r 'gwrandawiad' fod Naomi wedi dod yn ôl o wlad Moab ac am werthu'r darn tir sy'n perthyn iddynt fel teulu. Fel canlyniad, mae Boas yn rhoi gwahoddiad cyhoeddus i'r perthynas agosaf yma i brynu'r tir. Mae hwnnw'n gweld y fargen ac yn cytuno i'w brynu. Hynny yw, hyd nes y mae'n sylweddoli, wrth ei brynu, y bydd yn rhaid iddo gymryd Ruth yn wraig, gofalu am Naomi a chodi teulu efo Ruth i fod yn rhan o etifeddiaeth teulu Elimelech.

Wedi cael ei atgoffa o'r ymrwymiadau oedd ynghlwm yng nghyfraith etifeddu tir fel hyn, mae'r perthynas agosaf yn gwrthod y cynnig ac yn trosglwyddo'r cynnig i Boas. Yn unol â'r arfer cyhoeddus mewn sefyllfa o'r fath, mae'r perthynas agosaf wedyn yn tynnu ei esgid a'i rhoi i Boas, fel arwydd o drosglwyddo hawl teuluol. Drwy roi ei esgid i Boas, mae'n rhoi iddo'r hyn yr oedd wedi arfer cerdded arno – ei esgid, a hynny'n cynrychioli'r tir.

Bwriad awdur y llyfr yma ydy dangos y gwahaniaeth rhwng dau 'waredwr teuluol'. Tydy'r perthynas agosaf ddim am gymryd y cyfrifoldeb dros deulu Elimelech nac o sicrhau bod enw Elimelech yn cael ei gadw'n fyw ymhlith y bobl. Mae arno eisiau'r tir, ond nid y cyfrifoldeb mewn pobl sy'n dod hefo'r tir. Dyma pam, o bosib, nad ydym yn cael gwybod ei enw. Tydy ei ymateb ddim yn anrhydeddus ac felly ddim yn hawlio cofnodi ei enw. Roedd yr 'achubwr' dienw yn adnabod bargen – yn gweld y tir yn dda ac yn fodd o wneud elw ohono. Ond byddai cymryd y merched yn costio iddo – priodi Ruth, diogelu etifeddiaeth Elimelech a gofalu am Naomi.

O'r dechrau, roedd gan Boas ofal am Ruth a Naomi, ond gofal amdano'i hun oedd gan y perthynas dienw. Ac os dienw ydy'r perthynas agosaf, byw i ystyr ei enw a wna Boas.

**I'w drafod:**

Dychmygwch y sgwrs rhwng Ruth a Naomi tra oedd Boas, y perthynas agosaf a'r deg henadur yn trafod eu dyfodol ym mhorth y dref.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 3 Tachwedd am 7:30yh – Pererindod Melangell**

Mae Rhodri Gomer yn ymweld â sir Drefaldwyn i gerdded llwybr Pererindod Melangell yng nghwmni'r awdures Myfanwy Alexander. Ar ben y daith cawn fwynhau awyrgylch tangnefeddus Eglwys Pennant Melangell. Daw'r canu mawl o addoldai ledled Cymru a chawn berfformiad gan Dyfan Parry Jones.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
Sul, 3 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 3 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Pryderi Llwyd Jones, Cricieth




**Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru**

# Teithiau Cerdded Carn Ingli

Daeth eglwysi Cylch Carn Ingli at ei gilydd ar Sul cyntaf Awst i gynnal teithiau cerdded ac i gyfrannu at apêl Cymorth Cristnogol/Undeb Bedyddwyr Cymru 2024, sy'n dwyn y teitl 'Talentau Gobaith'. Bwriad yr apêl yw codi arian tuag at gymunedau gwledig Zimbabwe. Roedd y teithiau cerdded ar hyd rhai o lwybrau Cwm Gwaun, gydag 16 yn cerdded tair milltir a hanner, naw yn cerdded dwy filltir, a naw arall yn cerdded taith o filltir. Roedd hyn yn rhan o'r apêl – fod cyfuno cyfanswm ein milltiroedd ni gyda cherddwyr eraill ar hyd a lled Cymru yn anelu at 750 o filltiroedd, sef hyd y ddwy wlad, Cymru a Zimbabwe.

Roedd y daith gyntaf o faes parcio Sychbant ar hyd y ffordd ac i mewn i'r allt a cherdded wrth ochr ogleddol afon Gwaun. Roedd yr ail daith ar hyd llwybr uchaf Allt Pontfaen ac i lawr i'r cwm. Ac roedd y drydedd o gwmpas rhai o lwybrau ardal yr ysgol.



Gorffennodd pawb yn festri Jabes, lle unodd eraill ar gyfer oedfa fer gyda chyflwyniad PowerPoint yn sôn am yr apêl. Wedi'r oedfa parhawyd i gymdeithasu o gwmpas y byrddau ar gyfer te blasus iawn. Bydd y gwahanol enwadau yng Nghymru yn cynnal apêl fel hyn yn flynyddol, pob un yn ei dro. Felly, trwy ymdrechion cerddwyr Cylch Carn Ingli fe lwyddwyd i ychwanegu 83 o filltiroedd at gyfanswm y cerdded a llwyddwyd i godi £830 at yr apêl.

*Bonni Davies*

# Diwrnod Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd, 4 Tachwedd 2024






Ers bron i 75 o flynyddoedd mae chwiorydd yng Nghrist wedi ymuno â'i gilydd ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Thema eleni yw 'Bywyd Bwriadol', yn seiliedig ar Lythyr Paul at y Rhufeiniaid, 8:28: 'Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad.'

Dyma fersiwn Beibl.net o'r un adnod: 'Dŷn ni'n gwybod fod Duw'n trefnu popeth er lles y rhai sy'n ei garu – sef y rhai mae wedi'u galw i gyflawni ei fwriadau.'

Mae Adran Chwiorydd Cynghrair Bedyddwyr y Byd yn rhan o Gynghrair Bedyddwyr y Byd. Sefydlwyd Pwyllgor y Chwiorydd yn 1950 ac erbyn hyn mae'r Pwyllgor hwn yn gweithio ar draws saith Undeb Cyfandirol ac yn cwmpasu 175 o undebau a mudiadau. Mae'r Adran yn gymuned eang o chwiorydd mewn dros 150 o wledydd ac yn gwneud eu gorau i ddangos dylanwad Crist yn y byd. Y nod yw gweld merched ym mhobman yn ffynnu ac yn gwasanaethu er mwyn Crist. Mae'n anodd credu ein bod yn rhan o Gynghrair Bedyddwyr y Byd, rhwydwaith o 51 miliwn o Fedyddwyr a 178,000 o eglwysi. Mae logo Pwyllgor y Chwiorydd yn adlewyrchiad o wahaniaethau Chwiorydd Bedyddwyr y Byd, â phob undeb yn cael ei gynrychioli gan un o'r saith lliw yn y logo a'r llinyn gwyn yn eu huno.

Mae gan y mudiad bum amcan i hyrwyddo cenhadaeth fyd-eang Duw, sef:

1. cryfhau addoliad, cymdeithas ac undod
2. arwain cenhadaeth ac efengylu
3. ymateb drwy roi cymorth, nawdd a datblygu cymunedau
4. amddiffyn rhyddid crefyddol, hawliau dynol a chyfiawnder
5. hyrwyddo myfyrdod diwinyddol ac arweinyddiaeth drawsnewidiol.

**Gweddïau dros Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop**

**Heddwch**: Gweddïwn dros heddwch a sefydlogrwydd mewn ardaloedd sy'n profi gwrthdaro ac aflonyddu, gan gynnwys Wcráin a Rwsia, Israel a thiriogaeth Palesteina, a'r gwledydd cyfagos. Gweddïwn dros lwyddiant ymdrechion i sicrhau heddwch yno ac y bydd yr holl bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y trais parhaol yn profi cysur yn Nuw.

**Ffoaduriaid a phobl sydd wedi eu dadleoli**: Ymunwn mewn gweddi dros y rhai sydd wedi gorfod dianc o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro, erledigaeth neu argyfyngau eraill. Gweddïwn dros eu diogelwch a'u lles, yn ogystal â chymorth a chefnogaeth i ffoaduriaid a rhai sydd wedi eu dadleoli. Gweddïwn fod eglwysi yn rhannu cariad Crist fel bod llawer yn dod i'w adnabod Ef ac yn dod o hyd i dawelwch yn ei bresenoldeb.

**Arweinyddiaeth yr eglwys**: Gweddïwn dros arweinyddion eglwysi yn Ewrop a'r Dwyrain Canol fel eu bod yn derbyn trugaredd a gwroldeb. Gweddïwn y byddant yn llawn o'r Ysbryd Glân ac yn sefyll yn gadarn yn eu ffydd, gan arwain eraill gyda doethineb Duw fel modd o ehangu ei deyrnas.

**Ceisio a rhannu Crist**: Gweddïwn dros y rhai sydd wedi colli eu ffydd – y byddant yn profi cariad Crist eto. Gweddïwn y bydd enw Duw yn cael ei ddyrchafu o fewn y gwledydd hyn. Gweddïwn hefyd am ryddid crefyddol a goddefgarwch mewn gwledydd lle mae Cristnogion yn wynebu erledigaeth neu lle maent yn profi gwahaniaethu oherwydd eu crefydd.

**Pobl ifanc a phlant**: Gweddïwn am arweiniad yr Arglwydd, gofal a bendith i'n pobl ifanc. Gweddïwn dros rieni, athrawon, mentoriaid ac arweinwyr sy'n dylanwadu ar bobl ifanc a phlant ein gwledydd. Rho iddynt ddoethineb, amynedd a chryfder fel y gallant feithrin y genhedlaeth nesaf yng ngogoniant Crist.

# Dioddefaint y Palestiniaid

Gydag ymosodiadau soffistigedig a thybiedig Israel yn Libanus yn erbyn terfysgwyr Hezbollah, ydych chi, fel finnau, wrth wrando ar fwletinau'r newyddion yn tristáu ac yn arswydo wrth glywed yn ddyddiol am y Palestiniaid diniwed sy'n profi dioddefaint, lladd a marwolaeth ar Lain Gaza? Lladd ar raddfa fawr gan luoedd arfog Israel, sy'n gweithredu dan gyfarwyddyd Prif Weinidog Israel, Benjamin Netanyahu.

Ers cychwyn y rhyfel rhwng Israel a Hamas yng nghysgod Hydref y 7fed y llynedd, mae yn agos i 40,000 o Balestiniaid wedi colli eu bywydau a'r rhif yn cynyddu'n ddyddiol. Mae'n ymddangos i mi fel tasai yna hil-laddiad yn digwydd yn Llain Gaza, a'r Israeliaid nid yn unig am gael gwared yn llwyr ar bresenoldeb cefnogwyr Hamas yn Llain Gaza a'r Llain Orllewinol, ond am gael gwared hefyd o'r Palestiniaid. Gellir dod i'r casgliad hwn wrth feddwl nid yn unig am ddioddefaint y Palestiniaid yn Llain Gaza ond y ffordd y mae Israeliaid yn ymosod ac yn dwyn tiroedd y Palestiniaid yn y Llain Orllewinol.

Oherwydd y brwydro a'r dioddef, rhaid cydnabod ein bod yn teimlo'n gwbl ddiymadferth, ac yn llawn sylweddoli nad oes ateb nac atebion slic i'w cael i geisio dod o hyd i ddatrysiad a gweld heddwch ym mherthynas yr Israeliaid a'r Palestiniaid. Ond oes rhywbeth, yn rhyngwladol, ac o berthyn i'r gymuned ryngwladol, y gallwn ei wneud i geisio cael diwedd ar yr holl ddial a'r lladd, o'r ddwy ochr?

**Gwersi 'Llurig Badrig' a 'Beyond the Pale'**

Mae darllenwyr *Y Tyst* yn gwybod i mi gyfrannu ysgrifau i'r papur yn gynharach yn y flwyddyn am wersi y medrwn eu dysgu oddi wrth ein cefndryd Gwyddelig, o gofio'r holl drafferthion yn hanes y genedl y mae Iwerddon wedi eu hwynebu ers canrif a rhagor.

Wrth ddymuno profi diogelwch a gwaredigaeth rhag drygioni, neges yn ymbil am arweiniad ac amddiffyn Duw welaf innau yn yr hen emyn Gwyddelig 'Llurig Badrig', a briodolir i Badrig Sant, emyn yn deisyf am gael mwynhau heddwch mewn bywyd. Ac, er yn eironig, dyma darddiad yr ymadrodd 'Beyond the Pale', y mae'n sicr nad gweithredu'n dreisiol a gorthrymus a ddylem, fel y gwnaeth y Saeson yn Iwerddon dros y canrifoedd oddi ar gyfnod y Tuduriaid.

Y mae yna werth hefyd mewn defnyddio tacteg a gweithredu gwleidyddol sydd wedi tarddu o Iwerddon, sef 'boicotio'.

**Tarddiad yr arfer o foicotio**

Y mae tarddiad y term *boycotting* ynghlwm â'r frwydr am yr hawl i'r werin berchnogi a rhentu tir am bris rhesymol a theg. Y mae'n gysylltiedig â'r Rhyfel Tir (Land War) a chyfnod y 'Land League' a gafwyd yn Iwerddon yng nghysgod gweithredu'r Irish Republican Brotherhood ac arweiniad yr Aelod Seneddol Charles Stewart Parnell, gwleidydd a ddewisodd ymgyrchu ar eu rhan yn wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y Frawdoliaeth a Parnell yn ymgyrchu i'r werin dlawd gael tegwch wrth rentu tir gan landlordiaid barus. Yn y pen draw, roeddent yn ceisio adfer perchnogaeth tir yn Iwerddon i ddwylo'r brodorion lleol a Gwyddelig.

Bu'n frwydr danllyd a ffyrnig, oherwydd anghydfod yn sgil annhegwch. Tacteg oedd y boicotio lle'r anogwyd y werin i gadw draw ac i wneud dim yn gymdeithasol nac yn fasnachol gyda thirfeddianwyr barus, neu gynrychiolydd ar eu rhan, fyddai'n gweithredu'n orthrymus ac yn annheg wrth godi rhent afresymol ar yr amaethwyr Gwyddelig a thlawd.

Cymhwyswyd y dacteg yn gyntaf at y Capten Boycott, cynrychiolydd tirfeddiannwr barus, yn Ballinrobe yn Swydd Clare. Y mae yna faled enwog sydd wedi tarddu o swydd Clare, ac a genir hyd y dydd heddiw, 'Three Brave Blacksmiths'. Baled am y tri gof dewr ddewisodd gyfnod yn y carchar am foicotio yn hytrach na phedoli ceffyl oedd yn eiddo i ŵr wnaeth brynu fferm, y 'grabber', a'r fferm yr oedd y Land League ar y pryd yn dymuno gweld y tir yn cael ei rannu rhwng tenantiaid tlawd yn y gymdogaeth. Cafodd y tri 28 diwrnod o garchar, diwrnod am bob hoelen a fyddid wedi ei defnyddio i bedoli. Gellwch wrando ar y faled yn cael ei chanu ar YouTube.

**Arf pwerus**

Ie, yn Iwerddon y tarddodd y dacteg neu'r arf gwleidyddol o foicotio, sy'n medru bod yn arf pwerus ac effeithiol yn y frwydr yn erbyn annhegwch ac anghyfiawnder. Onid dyma ddylai pawb ei wneud bellach yn ein perthynas â gwladwriaeth Israel, o feddwl sut y maent yn trin y Palestiniaid?

Mae'n dda bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddar wedi penderfynu peidio â chyflenwi Israel ag arfau yr amheuir fyddai'n cael eu defnyddio i ymosod ar Balestiniaid. Ond a ddylid mynd gam ymhellach a'u boicotio'n llwyr, cael dim i'w wneud ag Israel? Ai dyma fyddai'n dod â'r wlad at ei choed a gweld diwedd ar y lladd a'r dial di-ben-draw mae'r wlad yn gyfrifol amdanynt?

**Maddau i ddisodli dial diddiwedd**

Nid dial yn ddi-ben-draw ydy'r ateb, a rhaid dod â'r cylchdro dieflig i ben. Y mae yna ateb yn Efengyl yr Arglwydd Iesu sy'n galw am barodrwydd ar ran y sawl sydd wedi dioddef i faddau i'r sawl sydd wedi troseddu yn eich erbyn – neges yn Nameg y Gwas Anfaddeugar. Os yw'n Duw yn maddau i ddynion a dynoliaeth eu holl droseddau yn ei erbyn, does bosib y gall unigolyn faddau i droseddwr am bechu yn ei erbyn. Ni fyddai hyn yn hawdd i'r Palestiniaid ei weithredu, ond fel y sylwodd un esboniwr wrth gymhwyso'r ddameg, dysgu wnaeth Iesu bod dialedd dihysbydd y dyn primitif i gael ei ddisodli gan faddeuant dihysbydd y Cristion. Cofiwn fod llawer o'r Palestiniaid yn Gristnogion. Yr Iddewon yn eu perthynas â'r Palestiniaid, a'r Palestiniaid yn eu perthynas â'r Iddewon – pryd y dysgant gallio? A fyddai mwy o foicotio, yn rhyngwladol o'r tu allan, yn help i ddod â'r dialwyr at eu coed?

*Emyr Gwyn Evans*
(Cyhoeddwyd yn wreiddiol
yn *Y Tyst*, 10 Hydref 2024)

## Gair o gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch. Jim Clarke, Llanfair-pwll, yn dilyn cyfnod o salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i feibion Dewi a Gwion a'u teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar. Diolchwn am ei weinidogaeth gyfoethog fel pennaeth gwaith ieuenctid yng Ngholeg y Bala, ac eto fel gweinidog yn ardal Dyffryn Nantlle ac yna yn Llanfair-pwll, cyn iddo ymddeol rai blynyddoedd yn ôl.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru